

## Bywgraffiad

Mae'r delynors Gymreig **Gwenllian Llŷr** yn prysur ennill cydnabyddiaeth rhyngwladol am ei pherfformiadau carismatig ac egniol. Yn 2013, enillodd Gwenllian wobr yng Nghystadlaeth Rhyngwladol UDA yn Bloomington, gan gael ei chanmol am ei dawn cerddorol a'i gallu i gysylltu â chynulleidfaoedd. Mae hi hefyd wedi ennill nifer o wobrau yn fwy lleol, gan gynnwys y Rhuban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012, a'r Wobr Gyntaf yng Nghystadlaeth Telyn Camac y Deyrnas Unedig yn 2010. Cafodd Gwenllian hefyd ei henwi fel Artist gyda City Music Foundation yn 2017.

Graddiodd Gwenllian gyda Dosbarth Cyntaf o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Meistr Cerddoriaeth o Ysgol Juilliard, lle gwobrwyd hi Gwobr William Schuman am gyflawniad ac arwainyddiaeth rhagorol yng ngherddoriaeth. Mae ei gyrfa wedi ei harwain ar draws y byd gyda pherfformiadau mewn lleoliadau mawreddog megis Neuadd Dewi Sant, Palas Buckingham, Carnegie Hall a Royal Albert Hall, gydag artistiaid adnabyddus, megis Rebecca Evans, Imogen Cooper, Al Jarreau, Matthew Rees a Bryn Terfel. Mae Gwenllian yn awchu am gyfleoedd i arddangos hyblygrwyd y delyn fel offeryn, gyda pherfformiadau diweddar yn cynnwys: datganiad telyn unawdol ar Rheilffordd Ffestiniog i Live Music Now; rhaglen o gyfansoddiadau cyfoes i delyn a llais ym Mhrifysgol Caerdydd; concerto gyda Cerddorfa St John's yn St John's Smith Square; perfformiad telyn a soddgrwth o 'The Swan' gan Saint-Saëns gyda dawnsiwr ym Mhalas Kensington.

Yn gyfochrog â'i gyrfa perfformio, mae Gwenllian yn athrawes ymrwymedig, megis fel athrawes preifat, arweinydd gweithdy, fel cynorthwy-ydd i gyfansoddwyr neu mewn dosbarth meistr cyhoeddus lle bydd cyngor ar gael i'r perfformwyr a'r gynulleidfa. Mae ganddi dros ddegawd o brofiad yn dysgu myfyrwyr o bob lefel, gallu ac oedran, ac yn dwli helpu ei disgyblion i gyrraedd eu potensial ac ymestyn eu cariad o gerddoriaeth a'r delyn. Mae hi'n addysgu yn Orpington a Gogledd Llundain, yn ogystal ac yn King's College London a Latymer Music Centre.